# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 9FED GORFFENNAF, 2018**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 29/06/18)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Beth Lawton
Anne Lloyd Jones
Dewi Wyn Roberts

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
Margaret E.Jones
David Wareing
Einir Young
[sedd wag]

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU** 8 - 24

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**6. HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH** 25 - 32

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**7. PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU SWYDDOGION** 33 - 41

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**8. CANLLAWIAU COD YMDDYGIAD AELODAU** 42 - 46

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 47 - 49

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**10. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2018** 50

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**11. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU** 51 - 54

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2017 (ynghlwm).

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 12 MAWRTH 2018

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Beth Lawton, Anne Lloyd Jones a Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones (is-gadeirydd yn cadeirio) a Mr David Wareing.

**Aelod Pwyllgor Cymuned:**- Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Cyfeiriwyd at waeledd gŵr y Dr Einir Young a nodwyd bod yr aelodau yn dymuno anfon eu cofion at y ddau ohonynt.

Croesawyd y Cynghorwyr Beth Lawton ac Anne Lloyd Jones i'w cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

Gan fod 4 aelod etholedig a 3 aelod annibynnol yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod, cytunodd y Cynghorydd Dewi Roberts i ymneilltuo o'r cyfarfod, er mwyn sicrhau cworwm.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Dr Einir Young (Cadeirydd) a Ms Jacqueline Hughes.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2017 fel rhai cywir.

**5. HYFFORDDIANT CYNGHORAU CYMUNED**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn argymell cyflwyno trefn amgen o ddarparu hyfforddiant i gynghorau tref a chymuned, a olygai gynnig darparu hyfforddwr i ddod i gynnal sesiwn ar y Cod Ymddygiad yn ardaloedd y cynghorau eu hunain, yn hytrach na chanoli sesiynau yn y prif ganolfannau'n unig.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod angen rhoi anogaeth gref i gynghorau gyd-weithio gyda chynghorau cyfagos ar hyn gan na fyddai'n ymarferol i'r hyfforddwr ymweld â'r 64 cyngor tref a chymuned yng Ngwynedd yn unigol.
- Y gellid rhedeg rhaglen gyson o sesiynau hyfforddiant, cyn belled â bod y galw yna a theilwrio'r sesiynau yn ôl y gofyn.

- Y gellid cynnwys taflen yn y pecyn anwytho a ddarperir ar gyfer aelodau newydd o gynghorau tref / cymuned yn crynhoi prif bwyntiau'r Cod Ymddygiad ar ffurf pwyntiau bwled ac yn darparu manylion cyswllt y Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cynnal peilot am flwyddyn o ddarparu hyfforddwr ar y Cod Ymddygiad i gynghorau tref a chymuned, yn unol â'r adroddiad, ac adrodd yn ôl ymhen 12 mis ar y casgliadau.**

**(b) Cynnwys taflen gryno ar y Cod Ymddygiad yn y pecyn anwytho a ddarperir ar gyfer aelodau newydd o gynghorau tref / cymuned.**

## 6. SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn rhoi trosolwg o swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau, yn bennaf er budd yr aelodau newydd, ond hefyd fel dull o atgoffa pawb o'r hyn y dylai'r pwyllgor ei wneud a'r hyn y gall ei wneud.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod datgan buddiant yn broblem neilltuol yn y Pwyllgor Craffu Gofal. 'Roedd mwyafrif aelodau'r pwyllgor wedi dewis mynd ar y pwyllgor hwnnw oherwydd eu bod yn ymddiddori yn y maes gofal / iechyd, ond gan fod y diddordeb hwnnw'n aml yn tarddu o'u cefndir proffesiynol hwy, neu aelod o'u teulu, e.e. yn uniongyrchol gyflogedig, neu'n gweithio mewn partneriaeth, gyda'r gwasanaeth iechyd, 'roedd yn ofynnol iddynt ymneilltuo o'r cyfarfodydd yn aml oherwydd eu buddiant yn y materion dan ystyriaeth.
- Bod gwaith ar droed i baratoi nodyn yn cynghori ar nifer o sefyllfaoedd fel hyn er ceisio adnabod lle mae'r ffiniau gan ei bod yn mynd yn gynyddol anodd gweithredu'r Cod yn briodol tra'n gwarchod y broses ddemocrataidd.
- Os yw aelod yn gorfod datgan buddiant mor aml, dylid gofyn y cwestiwn ai dyma'r pwyllgor gorau i'r aelod fod yn gwasanaethu arno? I'r gwrthwyneb, 'roedd peryg' wedyn o golli gwir arbenigedd ar y pwyllgor.
- Bod goddefeb yn un ffordd ymlaen, ond 'roedd hynny'n ddibynnol ar y seiliau. Awgrymwyd efallai bod angen codi ymwybyddiaeth aelodau craffu bod modd iddynt gyflwyno cais am oddefeb.
- Ei bod yn bwysig bod aelodau yn darllen adroddiadau sy'n mynd gerbron gwahanol bwyllgorau ac yn cysylltu ymlaen llaw gyda'r Swyddog Monitro neu'r Uwch Gyfreithiwr Corfforaethol os ydynt yn amau y gallai fod ganddynt fuddiant mewn eitem ar y rhaglen.
- Er bod mwyafrif y cwynion i'r Ombwdsmon yn cael eu gollwng yn y pen draw, gall aros am y dyfarniad olygu cyfnod anodd iawn i aelod y cyflwynwyd cŵyn yn ei erbyn. Cadarnhawyd bod y drefn yn gyfrinachol nes cyrraedd gwrandawiad llawn gerbron y Pwyllgor Safonau neu'r Panel Dyfarnu.

Yn ychwanegol i gynnwys yr adroddiad, a chan bod aelodaeth y Pwyllgor Safonau bellach yn gyflawn, nododd y Swyddog Monitro ei fwriad i drefnu hyfforddiant byr i aelodau'r pwyllgor ar y drefn gwrandawiadau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn nodi penderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod yr Ombwdsmon yn cymryd amser maith i ddod i benderfyniad ar achosion unigol pan yn cynnal ymchwiliad a bod hynny'n achosi straen i'r sawl y gwnaed honiad yn ei erbyn.
- Bod pobl yn cael eu siomi gan benderfyniad yr Ombwdsmon i beidio ymchwilio i'w cŵyn.
- Bod trefn o benderfynu'n lleol ar gwynion yn well, ond y cydnabyddir bod hynny ar gyfer mân gwynion yn unig.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Ebrill, 2017.

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod aelodaeth y fforwm bellach wedi'i ymestyn i gynnwys cynghorau Ceredigion a Phowys.
- Iddo wirfoddoli i gynnal cyfarfod nesaf y fforwm yng Ngwynedd yn ystod Mai / Mehefin.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 12.10 y.h.

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **9 Gorffennaf 2018** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2017-18** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y dylid cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn,  Byddai hyn yn fodd o godi proffil y Pwyllgor a hyrwyddo ei waith.

2. Atodaf er sylw'r Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft , ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018.

3. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad, a hefyd ystyried ynglŷn dulliau o'i gyflwyno a'i ddosbarthu.

**Argymhelliad**

4. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD

# 2017 - 2018

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

[ I DDILYN]

**Dr Einir Young**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

**[I DDILYN]**

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**Margaret E Jones (aelod ers 2012)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.

**Dr Einir Young (aelod ers 2012)**

Wedi ei geni yn y Rhondda a'i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers bron i ddeg mlynedd ar hugain. Bu'n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru yw canolbwynt ei gwaith erbyn hyn ond yr un yw'r heriau sy'n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er gwella neu'n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai'n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma'r union egwyddorion sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor mae Einir a'i thîm yn y Labordy Cynaliadwyedd yn frwd dros hyrwyddo'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hannog gan y ddeddf ar draws y sefydliad a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio.
Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded ymysg pethau eraill ac ar hyn o bryd mae hi a'i chi ar daith o amgylch Llwybr Arfordir Cymru gyda'i chwaer.

**Jacqueline Hughes (aelod ers 2015)**

Mae Jackie yn byw yn Nantlle gyda'i gwr Ian, ei thair merch, ei hwyres a chi bywiog iawn. Yn wreiddiol o Gilgwri, cymhwysodd fel radiograffydd diagnostig yn 1987 ar ôl astudio yn Ysgol Radiograffeg Ysbyty Guys. Ar ôl ymgartrefu yng Ngogledd Cymru gyda'i theulu ifanc, ymunodd â staff yn Ysbyty Gwynedd. Mae gyrfa Jackie ym

Mangor wedi datblygu fel radiograffydd ac fel cynrychiolydd cysylltiadau diwydiannol. Ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd Ochr y Staff ar gyfer y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ogystal â bod yn gynrychiolydd lleol dros y rhan fwyaf o'r radiograffwyr yng Ngogledd Cymru. Bu'n Llywydd Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion ac roedd yn allweddol wrth ddatblygu'r ymateb i Adroddiad Francis, ac yn dilyn hynny côd ymddygiad newydd ar gyfer radiograffyddion. Mae hi'n credu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gweithio mewn bywyd cyhoeddus gynnal lefel uchel o safonau personol er mwyn bod yn gredadwy i'r cyhoedd.

**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Mae'n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers2017)**

[Manylion i ddilyn]

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Dewi Roberts (aelod ers 2017)**

[Manylion i ddilyn]

**Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)**

[Manylion i ddilyn]

**Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)**

[Manylion i ddilyn]

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro’r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o’r Gwasanaeth Cyfreithiol a’r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi’r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a’i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn 01286 679015
- Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol). E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2017 - 2018

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Eleni, ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor am benderfyniad.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor dri cais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma oddi wrth aelodau Cyngor Gwynedd a chaniatawyd y tri..

## Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad

Ystyriodd y Pwyllgor a fyddai modd cael trefn amgen o ddarparu hyfforddiant i gynghorau tref a chymuned. Penderfynwyd cynnal peilot o drefna olygai cynnig darparu hyfforddwr i ddod i gynnal sesiwn ar y Cod Ymddygiad yn ardaloedd y cynghorau eu hunain, yn hytrach na chanoli sesiynau yn y prif ganolfannau'n unig. Bwriedir adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y peilot ymhen blwyddyn.

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd y dylid paratoi taflen gryno ar y Cod Ymddygiad ar gyfer y pecyn anwytho a ddarperir ar gyfer aelodau newydd o gynghorau tref / cymuned.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir

cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor. Erbyn hyn mae Pwyllgorau Safonau Ceredigion a Phowys wedi ymuno â'r Fforwm.

**Atodiad 1**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2017-18

### 10 Gorffennaf 2017

- Cynnal Hunanasesiad a llunio Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Ystyried Trefn Datrys Lleol Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru

### 2 Hydref 2017

- Ystyried Protocol Cyngor Gwynedd ar Gysylltiadau Aelod / Swyddog
- Ystyried Protocol Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd
- Penderfynu ar geisiadau am oddefebau
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon

### 12 Mawrth 2018

- Ystyried trefniadau hyfforddiant i gynghorau tref a chymuned
- Cymryd trosolwg o swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau

### 23 Ionawr 2017

- Cymeradwyo trefn i benodi aelodau i'r Pwyllgor yn dilyn yr Etholiadau
- Ystyried cais i ymestyn aelodaeth Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru
- Derbyn diweddariad ar y Gofrestr Buddiannau Aelodau
- Penderfynu ar ddau gais am oddefeb

**Atodiad 2**

**Atodiad 2**

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

| **Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad** | **Penderfyniad yr Ombwdsmon** |
|---|---|
| | |
| Cwyn bod cynghorydd cymuned wedi dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod ac wedi defnyddio ei sefyllfa'n amhriodol, wrth weithredu ar bwyllgor lleol. | Dim ymchwiliad - roedd yr aelod yn ymwneud â'r pwyllgor lleol mewn capasiti personol a phreifat ac nid fel cynghorydd etholedig. |
| Cwyn yn erbyn cynghorydd ei fod wedi rhoi sylwadau am yr achwynydd ar ei dudalen Facebook oedd yn enllibus ac yn dwyn anfri ar yr awdurdod a'i swydd. | Dim ymchwiliad. Nid oedd yn eglur os oedd y sylwadau yn hollol gyhoeddus ac os oedd wedi eu gwneud fel cynghorydd. Bwriadai'r Ombwdsmon serch hynny ysgrifennu at yr aelod i'w atgoffa o'r angen i gadw at baragraff 6(1)(a) (dwyn anfri) ar bob achlysur ac mewn unrhyw gapasiti. Roedd honiad o enllib yn fater cyfreithiol ar gyfer y llysoedd. |
| Cwynion yn erbyn pedwar cynghorydd cymuned mewn cysylltiad â datgan diddordeb mewn eitem gerbron. | Dim ymchwiliad mewn tri achos. Ymchwiliodd i ddwy gŵyn yn erbyn yr un aelod, ac er canfod bod y cod wedi ei dorri nid oedd o'r farn bod cyfiawnhad dros gymryd camau pellach. |

| | |
|---|---|
| Cwyn gan gynghorydd tref bod cyd-gynghorydd wedi methu datgelu cysylltiad personol agos â pherson oedd mewn anghydfod â'r cyngor; bod y cysylltiad hwnnw'n creu buddiant oedd yn rhagfarnu; ei bod wedi cuddio'r ffaith er mwyn ennill mantais ariannol. Honnodd hefyd bod yr aelod wedi cyfarwyddo'r Clerc i beidio cofnodi a/neu gylchredeg cofnodion ynglŷn â'r mater. | Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i'r gŵyn a daeth i'r casgliadau canlynol:<br><br>• Nid oedd tystiolaeth bod cysylltiad personol agos yn bodoli<br>• Nid oedd tystiolaeth bod yr aelod wedi ceisio cuddio buddiant neu geisio mantais bersonol<br>• Tra bod problemau wedi bod gyda chofnodion y cyngor yn y gorffennol, nid oedd tystiolaeth bod yr aelod wedi cyfarwyddo'r Clerc i beidio paratoi cofnodion a'u cylchredeg |
| Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd tref, yn rhinwedd ei safle fel cadeirydd sefydliad lleol, wedi gwneud sylwadau bygythiol wrtho mewn cysylltiad â darpariaethau i ymwelwyr anabl i'r sefydliad. | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:<br><br>• Ymddangosai bod y cynghorydd yn gweithredu fel unigolyn preifat ar y pryd ac nid fel cynghorydd. Nid oedd amgylchiadau'r achos yn rhai fyddai'n golygu bod y Cod Ymddygiad yn berthnasol i ymddygiad yr aelod fel unigolyn. |

| | |
|---|---|
| Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd tref wedi gwneud sylwadau rhywiaethol a gwreig-gasaol ar ei dudalen Facebook. | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:<br><br>• Roedd hi'n ymddangos bod y cynghorydd yn defnyddio cyfrif personol Facebook ar y pryd. Ni welai'r Ombwdsmon unrhyw gyfeiriadau at ei statws fel cynghorydd neu awgrym ei fod yn gweithredu fel un ar y pryd.<br>• Roedd Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwarchod yr hawl pobl i ddweud rhai pethau er y gallent fod yn annerbyniol i rai.<br>• Nid oedd unrhyw unigolyn na chwmni yn cael ei enwi yn y sylwadau<br>• Nid oedd yr Ombwdsmon yn cymeradwyo'r sylwadau a gellid dweud eu bod yn dwyn anfri arno fel unigolyn<br><br>Serch hynny, yn absenoldeb cyfeiriad at unigolyn penodol, nid oedd y sylwadau mor dramgwyddus fel eu bod yn dwyn anfri ar y cyngor neu ar rôl cynghorydd |
| Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi bod yn rhan o benderfyniad i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol. | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:<br><br>• Nid oedd tystiolaeth ddigonol i gadarnhau'r gŵyn bod yr aelod wedi bod yn gyfrifol am ddatgelu'r wybodaeth |

| | |
|---|---|
| Cwyn gan aelod cyngor tref bod cyd -aelod wedi cyflwyno cwyn flinderus yn ei herbyn i'r Ombwdsmon. | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:<br><br>• Roedd y gŵyn dan sylw wedi ei derbyn gan yr Ombwdsmon fel cwyn i'w hymchwilio, ac felly ni allai ddod i'r casgliad ei bod yn flinderus. |
| Cwyn bod aelod wedi defnyddio ei statws fel aelod etholedig i ddylanwadu ar yr heddlu i weithredu yn erbyn yr achwynydd mewn perthynas â chwyn am aflonyddu. | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:<br><br>• Nid oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd ond fel unigolyn preifat.<br>• Nid oedd y sylwadau a wnaed gan yr aelod yn effeithio ar enw da'r Cyngor. |
| Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi gwrthod ymwneud ag ef mewn perthynas â materion yn ymwneud â'i eiddo ac anghydfod rhyngddo â'r Cyngor | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:<br><br>• Mater i gynghorydd yw penderfynu os yw am gyfarfod neu ohebu gydag aelodau o'r cyhoedd. Prif ddyletswydd aelodau yw cynrychioli trigolion o fewn eu hetholaethau, ond nid oes rheidrwydd arnynt i ymdrin â phob mater unigol a adroddir iddynt. |

| | |
|---|---|
| Cwyn bod cyd aelod wedi camddefnyddio ei statws fel cynghorydd i wenud honiadau personol am yr achwynydd. | Yn dilyn ymchwiliad daeth yr Ombwdson i'r casglaid nad oedd ymddygiad yr aelod yn ddigon difrifol i dorri'r Cod. Serch hynny roedd am ysgrifennu at yr aelod i'w atgoffa o'i gyfrifoldeb i ystyried sut y mae ei sylwadau yn cael eu canfod gan eraill. |

**Dadansoddiad o'r Cwynion yn erbyn Aelodau**

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 9 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 3 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | 3 |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 9 |
| Aelod o'r cyhoedd | 6 |
| Swyddog | 0 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 9 |
| Datgan Buddiant | 6 |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 11 |
| Ymchwiliad | 4 |
| Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| Cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru | 0 |

Tud. 24

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Safonau |
| DYDDIAD | 9 Gorffennaf 2018 |
| TEITL | Hunan Asesiad a Rhaglen Waith |
| AWDUR | Swyddog Monitro |

1. Mae dau fwriad ar gyfer yr adroddiad yma sef cynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r Pwyllgor yn ystod 2017-18 ac ystyried rhaglen waith drafft ar gyfer 2018-19.

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau wedi gosod drwy statud yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n amserol efallai fod y Pwyllgor yn talu sylw newydd ar y rhain ar ddechrau tymor newydd er ffurfio cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn.

   (a) Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

   (b) Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

   (ch) Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (d) Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

3. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n credu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

   Categori 1 – Fod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyflawni'r swyddogaeth neu yn achos tasgau penodol nid yw'r angen i weithredu wedi codi.

   Categori 2 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth yn sylweddol

   Categori 3 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ond mae angen rhoi sylw pellach.

   Categori 4 - Nid oes tystiolaeth fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r

swyddogaeth ac mae sail i awgrymu fod angen rhoi sylw i'r maes.

Mae angen nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r categori mae'r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae'r golofn "Tystiolaeth" yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae'n bosib y bydd aelodau'r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati.

4. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi'r dystiolaeth bydd yn bosib i'r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn â pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae'r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

5. Atodiadau

Yn Atodiad 1 ceir hunan asesiad drafft er ystyriaeth gan y Pwyllgor

Yn Atodiad 2 Rhaglen Waith 2017-18 ac asesiad cyflawniad

Yn Atodiad 3 Rhaglen Waith drafft ar gyfer 2018-19

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor gynnal Hunan Asesiad o'r perfformiad yn 2017-18 ynghyd a chymeradwyo rhaglen waith ar gyfer 2018-19**

**ATODIAD 1**

## HUNAN ASESIAD Y PWYLLGOR SAFONAU 2017/2018



| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau | | Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.<br><br>Cynhaliwyd cyfres o gyrsiau anwytho i aelodau ynghyd a chyrsiau manwl ar sail templed CLlLC.<br><br>Adolygu Protocolau Rhoddion a Lletygarwch a Chyswllt Aelodau Swyddogion.<br><br>Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn | Parhau i fynychu a chefnogi |
| Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad | | Cefnogi rhaglen anwytho ar gyfer y Cyngor newydd.<br><br>Swyddog Monitro a'i dim yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i aelodau. | Ystyried adborth Hyfforddiant a rhaglen newydded |
| Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad | | Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod. | |
| Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad | | Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru<br><br>Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a datganiadau a wneir | Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth<br><br>Ystyried y diwygiadau i'r Cod ymddygiad a sut i rannu'r newid. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch. | |
| Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad | | Cynhaliwyd cyfres o gyrsiau anwytho i aelodau ynghyd a chyrsiau manwl ar sail templed CLlLC. | Rhaglen Hyfforddiant newydd |
| Rhoi goddefebau i aelodau | | Ymdriniwyd â cheisiadau am oddefebau gan weithredu ar sail wrthrychol a phriodol, | |
| Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon | | Ni chyfyd angen am wrandawiadau yn ystod y flwyddyn | |
| Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad | | Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath | |
| Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned | | Swyddog Monitro a'i dim yn darparu cyngor ac arweiniad i gynghorau, clercod ac aelodau.<br><br>Mabwysiadu peilot ar gyfer hyfforddi Cod Ymddygiad.<br>.<br>Hyrwyddo trefn datrys leol Unllais Cymru I Gynghorau Cymuned | Rhaglen Hyfforddiant newydd |

**ATODIAD 2 / APPENDIX 2**

| **Rhaglen Waith Pwyllgor Safonau 2017/18** | **Standards Committee Work Programme 2017/18** | |
|---|---|---|
| **10 Gorffennaf 2017**<br>Adroddiad Blynyddol<br>Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith<br>Honiadau yn erbyn aelodau<br>Trefn Datrys Leol Un Llais Cymru<br>Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu | **10 July 2017**<br>Annual Report<br>Self-Assessment and Work Programme<br>Allegations against members<br>Local Resolution Procedure – One Voice Wales.<br>Annual Report of Adjudication Panel | **1**<br>**1**<br>**1**<br>**1**<br>**4** |
| **2 Hydref 2017**<br>Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman<br>Honiadau yn erbyn Aelodau<br>Adolygiad Protocolau | **2 October 2017**<br>Ombudsman's Annual Report<br>Allegations against members<br>Review of Protocols | **1**<br>**1**<br>**1** |
| **22 Ionawr 2018- Dim Cyfarfod** | **22 January 2018 – No Meeting** | |

| | | |
|---|---|---|
| **12 Mawrth 2018** | **12 March 2018** | |
| Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch | Gifts and Hospitality Register | **4** |
| Cofrestr Datgan Buddiant | Declaration of Interest registers | **4** |
| Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu | Annual Report of Adjudication Panel | **1** |
| Honiadau yn erbyn aelodau | Allegations against members | **1** |
| Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith | Self-Assessment and Work Programme | **4** |
| Hyfforddiant Cynghorau Cymuned | Community Council Training | **1** |

**ATODIAD 3/ APPENDIX 3**

| **Gwaith Pwyllgor Safonau 2018-19** | **Standards Committee Work 2018-19** |
|---|---|
| **9 Gorffennaf 2018**<br><br>Adroddiad Blynyddol<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Cwblhau Adolygiad Protocol Aelodau Swyddogion<br><br>Cymeradwyo Canllawiau Cod | 9 July 2018<br><br>Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Complete Review of Member Officers Protocol<br><br>Approve Code Guidelines |
| **1 Hydref 2018**<br><br>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br><br>Cofrestr Datgan Buddiant<br><br>Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman<br><br>Honiadau yn erbyn Aelodau<br><br>Trefn Goddefebau | **1 October 2018**<br><br>Gifts and Hospitality Register<br><br>Declaration of Interest registers<br><br>Ombudsman's Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Dispensations Procedure |

| | |
|---|---|
| **21 Ionawr 2017**<br><br>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br><br>Cofrestr Datgan Buddiant<br><br>Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau | **21 January 2017**<br><br>Gifts and Hospitality Register<br><br>Declaration of Interest registers<br><br>Annual Report of Adjudication Panel<br><br>Allegations against members |
| **18  Mawrth 2019**<br><br>Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Adolygiad Hyfforddiant | **18 March 2019**<br><br>Self-Assessment and Work Programme<br><br>Allegations against members<br><br>Training Review |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD** | 9 Gorffennaf 2018 |
| **PWNC** | Protocol ar Gysylltiadau Aelodau Swyddogion |
| **AWDUR** | Iwan Evans – Swyddog Monitro |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Adrodd yn o ar yr ymgynghoriadau ar yr adolygiad. |

**Cefndir**

Fel rhan o broses adolygu Protocolau Priodoldeb mynegodd y Pwyllgor Safonau ddymuniad i adolygu'r Protocol yma gan adnabod man newidiadau o safbwynt ystyr a dehongliad oedd angen sylw.

Yn dilyn y penderfyniad i gynnal adolygiad cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid Penaethiaid Adrannau ac Uwch Reolwyr y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at newidiadau arfaethedig sydd wedi eu hamlygu yn y ddogfen atodedig.

Mae'r prif newidiadau ynglŷn â chryfhau'r ddarpariaeth ar ynglŷn â bwlio ac aflonyddu, cyfeillgarwch rhwng swyddogion ac aelodau ac ymateb i ohebiaeth.

Dylid nodi fod y ddarpariaeth ynglŷn â gohebiaeth yn adlewyrchu cynnydd gwaith arall sydd wedi digwydd ac arweiniad sydd eisoes wedi ei ddarparu i staff ynglŷn ag ymdrin â gohebiaeth aelodau.

**Argymhelliad**

**Fod y Pwyllgor Safonau yn ystyried y newidiadau arfaethedig ac yn rhoi argymhelliad i'r Cyngor ar fabwysiadu'r diwygiadau i'r Protocol Cysylltiad Aelodau a Swyddogion.**

Atodiad 1

Protocol Cysylltiadau Aelodau Swyddogion Drafft

Atodiad 2

Cofnod Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 12 Ebrill 2018.

## Atodiad 1

**ADRAN 21**

**21. <u>PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU / SWYDDOGION</u>**

**21.1 <u>Cyflwyniad</u>**

Diben y Protocol hwn yw rhoi arweiniad i Aelodau a Chyflogeion y Cyngor o ran eu cysylltiadau â'i gilydd.

21.2 Mae parch rhwng Aelodau a Chyflogeion yn hanfodol i lywodraeth leol dda. Fodd bynnag, gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion unigol niweidio'r berthynas hon ac achosi embaras i Aelodau a Chyflogeion eraill.

21.3 Mae'n rhaid i'r berthynas weithredu heb beryglu cyfrifoldebau pennaf Cyflogeion i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a chan roi ystyriaeth briodol i'r cyfryw gyngor technegol, ariannol, proffesiynol a chyfreithiol y gall Cyflogeion ei roi'n gyfreithlon i Aelodau. Mae'r Protocol yn ceisio gosod fframwaith sy'n hwyluso'r cysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion.

21.4 Mae Aelodau a Chyflogeion yn ddarostyngedig i'w Codau Ymddygiad eu hunain sydd ar gael yn y Cyfansoddiad hwn. Mae'r Protocol hwn yn rhoi arweiniad ar gysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae'n hanfodol bod y ddau yn gyfarwydd â'r rhwymedigaethau manwl yn eu Codau Ymddygiad unigol, a fydd yn drech os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Codau a'r Protocol hwn.

**21.5 <u>Rolau Aelodau</u>**

Mae Aelodau'n ymgymryd â llawer o wahanol rolau. Yn gyffredinol:

21.5.1 Mae Aelodau'n mynegi gwerthoedd gwleidyddol ac yn cefnogi polisïau'r grŵp neu'r blaid y maent yn perthyn iddo/iddi (os o gwbl).

21.5.2 Mae Aelodau'n cynrychioli eu hadran etholiadol ac yn eiriolwyr ar ran y dinasyddion sy'n byw yn yr ardal.

21.5.3 Mae Aelodau'n ymwneud â phartneriaethau gweithredol gyda sefydliadau eraill fel arweinwyr cymunedol.

21.5.4 Mae Aelodau'n cyfrannu at y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor Llawn ac yn ei gyrff amrywiol y maent yn gwasanaethu arnynt, yn ogystal â chydbwyllgorau, cyrff allanol a sefydliadau partneriaeth.

21.5.5 Mae Aelodau'n **<u>gweithio gyda Swyddogion</u>** ~~helpu~~ i ddatblygu ac adolygu polisi a strategaeth.

21.5.6 Mae Aelodau'n monitro ac adolygu gweithrediad polisïau ac ansawdd gwasanaethau.

21.5.7 Mae Aelodau'n ymwneud â gwaith lled-farnwrol trwy eu haelodaeth o bwyllgorau rheoleiddio.

**21.6** Mae ymddygiad Aelodau'n cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Aelodau sy'n datgan:

"Rhaid i chi

(a) *gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;*

(b) *ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;*

(c) *beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a*

(ch) *beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran."*

**21.7 <u>Rolau Cyflogeion</u>**

Yn fyr, mae prif rolau Cyflogeion fel a ganlyn:

21.7.1 Rheoli a darparu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor wedi eu penodi'n gyfrifol amdanynt a bod yn atebol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.

21.7.2 Cynghori'r Cyngor a'i gyrff amrywiol ac Aelodau unigol o ran y gwasanaethau a ddarperir.

21.7.3 Cychwyn cynigion polisi.

21.7.4 Gweithredu polisi cytunedig.

21.7.5 Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd cyfreithlon.

**21.8** Mae ymddygiad Cyflogeion yn cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Gyflogeion sy'n datgan:

*"Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a chyflogeion eraill.*

4. *Mae cyd-barch rhwng cyflogeion cymwys ac aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai perthnasoedd gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol.*

5. *Dylai cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, aelodau a chyflogeion eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd."*

**21.9 <u>Parch a Chwrteisi</u>**

21.9.1 Er mwyn i fusnes y Cyngor gael ei gynnal yn effeithiol, mae'n rhaid cael parch, ymddiriedaeth a chwrteisi yn yr holl gyfarfodydd a chysylltiadau, ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o enw da'r Cyngor a chanfyddiad y cyhoedd ohono. Mae'n bwysig iawn bod Aelodau a Chyflogeion yn cofio eu rhwymedigaethau unigol i wella enw da'r Cyngor a'u bod yn gwneud ymdrech i osgoi beirniadu Aelodau eraill, neu Gyflogeion eraill, mewn mannau cyhoeddus.

21.9.2 <u>Pwysau Gormodol</u>

(a) Wrth ymwneud â'i gilydd, mae'n bwysig nad yw Aelodau a Chyflogeion yn ceisio manteisio'n annheg ar eu safleoedd.

(b) Wrth ymwneud â Chyflogeion (yn enwedig Cyflogeion iau), mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ei bod yn rhwydd iddynt deimlo parchedig

ofn ac fel petaent dan anfantais. Gall teimladau o'r fath fod yn ddwysach pan fydd Aelodau'n dal swydd swyddogol a/neu wleidyddol uwch.

(c) Ni ddylai aelod roi swyddogion dan bwysau amhriodol i weithredu yn unol â dymuniadau'r aelod a bydd swyddog bob amser yn rhydd i gynnig barn broffesiynol sy'n groes i farn yr aelod.

(ch) Ni ddylai Aelod roi pwysau gormodol ar Gyflogai i wneud unrhyw beth nad oes ganddo ef/ganddi hi y pŵer i'w wneud nac i ymgymryd â gwaith y tu allan i'w (d)yletswyddau arferol neu ei (h)oriau arferol. Mae angen bod yn arbennig o ofalus o ran defnyddio eiddo a gwasanaethau'r Cyngor.

(d) Yn yr un modd, mae'n rhaid i Gyflogai beidio â cheisio dylanwadu'n ormodol ar Aelod unigol i wneud penderfyniad o'i blaid/phlaid, na chodi materion personol yn ymwneud â'i swydd, na gwneud honiadau yn erbyn Cyflogeion eraill. *(Mae gan y Cyngor weithdrefnau ffurfiol ar gyfer ymgynghori, cwyno a disgyblu, ac mae gan Gyflogeion yr hawl i adrodd am gamweddau posibl o dan God Adrodd Cyfrinachol y Cyngor sef Polisi Canu'r Gloch.)*

21.9.3 Bwlio neu harasio

***Ystyr aflonyddu ("harasio") yw ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd sy'n cynhyrfu neu'n gwylltio pobl. Mae bwlio'n gallu golygu ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus, sarhaus neu fychanol. Gall ymddygiad o'r fath ddigwydd unwaith neu gall fod yn rhan o batrwm ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at rywun gwannach neu rywun y mae gennych ddylanwad gwirioneddol neu ymddangosiadol drosto. Y bwriad wrth fwlio yw tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion; mae'n niweidio eu hyder a'u galluogrwydd a gall amharu ar eu hiechyd. Gellir cyferbynnu hyn â'r heriau dilys y gall aelod eu codi wrth gwestiynu polisi neu wrth graffu ar berfformiad. (Ombwdsman Gwasnaethau Cyhoeddus)***

Nid yw'n dderbyniol i aelod fwlio neu harasio swyddog. Ystyrir unrhyw weithred yn erbyn swyddog yn fwlio neu harasio os mai'r bwriad oedd dylanwadu'n amhriodol neu'n annheg ar ei farn neu ei weithgaredd.

Nid oes lle i sylwadau dilornus personol mewn trafodaeth rhwng aelod a swyddog ac ni ystyrir ei bod yn briodol i'r naill leisio cwyn am y llall yn gyhoeddus mewn pwyllgor neu yn y wasg, heb yn gyntaf ddefnyddio trefniada u mewnol y Cyngor i geisio datrys y gwyn honno.

21.9.4 Cyfeillgarwch

**Mae awyrgylch weithio dda rhwng Aelodau a Swyddogion yn gyfrwng i gynnal perthynas weithio effeithiol. Fodd bynnag, dylent fod yn ofalus ynglŷn â datblygu cyfeillgarwch personol agos. Ni ddylid tanseilio cyd-barchu na'r disgwyliad ac ymddangosiad fod swyddogion yn darparu cyngor proffesiynol a diduedd i aelodau.**

~~(a) Gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion niweidio'r egwyddor o barch tuag at ei gilydd. Fe allai hefyd, yn fwriadol neu'n ddamweiniol, arwain at drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol neu~~

~~wybodaeth nad yw'n briodol ei throsglwyddo rhyngddynt, fel manylion personol.~~

~~(b) Gallai cyfeillgarwch o'r fath hefyd achosi embaras i Aelodau eraill a/neu Gyflogeion eraill a hyd yn oed arwain at amheuon ynglŷn â ffafriaeth.~~

~~(c) Am y rhesymau hyn, mae'n rhaid osgoi cyfeillgarwch personol agos.~~

## 21.10 Rhoi Cyngor a Gwybodaeth ac Ymdrin a Gohebiaeth

21.10.1 Caiff Cyflogeion eu cyflogi gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Maent yn gwasanaethu'r Cyngor ac yn atebol i'r Prif Weithredwr a'u Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth priodol, ac nid i Aelodau unigol o'r Cyngor waeth beth fo'u swydd.

21.10.2 Mae Aelodau'n rhydd i gysylltu â Chyflogeion y Cyngor er mwyn cael y cyfryw wybodaeth a chyngor ag y gallai fod ei (h)angen arnynt yn rhesymol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelod o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â rhyw agwedd ar weithgareddau'r Cyngor i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr.

21.10.3 Dylai Cyflogeion bob amser geisio ymateb i geisiadau am **wybodaeth a gohebiaeth c**yn brydlon a **phosib** , sut bynnag, dylent hysbysu'r Aelod os oes oedi sylweddol yn debygol wrth ymdrin ag ymholiad. Dylid ymdrechu o leiaf i ddilyn yr amserlen ar gyfer ymateb i ohebiaeth h.y. naill ai ymateb llawn **o fewn pum diwrnod gwaith neu** , os nad yw hyn yn bosibl, cydnabyddiaeth sy'n esbonio'n llawn beth sy'n digwydd o fewn pum diwrnod gwaith o dderbyn yr ymholiad **a chadw cysylltiad ynglyn a chynnydd.**

21.10.4 Ymdrinnir â hawliau cyfreithiol Aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor yn rhannol gan statud ac yn rhannol gan gyfraith gwlad.

21.10.5 Mae'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn yn esbonio'r sefyllfa o ran mynediad at bapurau sy'n ymwneud â chyrff y Cyngor.

21.10.6 Mae arfer yr hawl cyfraith gwlad yn dibynnu ar allu Aelod i ddangos ei fod/bod "angen gwybod". I'r perwyl hwn, nid oes gan Aelod hawl i "gennad i grwydro" i archwilio unrhyw rai o ddogfennau'r Cyngor. Nid yw chwilfrydedd yn unig yn ddigonol.

21.10.7 Dylai'r wybodaeth a geisir gan Aelod gael ei darparu gan y Gwasanaeth perthnasol dim ond cyn belled â bod hynny o fewn terfynau adnoddau'r Gwasanaeth. O'u rhan hwy, dylai Aelodau geisio gweithredu'n rhesymol o ran nifer a chynnwys y ceisiadau a wnânt.

21.10.8 Mae'n bwysig i Wasanaethau a'u staff roi gwybodaeth i Aelodau am y materion pwysig sy'n ymwneud â'r Cyngor ac, yn fwy penodol, am faterion a digwyddiadau sy'n effeithio ar yr ardaloedd y maent eu cynrychioli. Dylid rhoi gwybodaeth i Aelodau lleol am gynigion sy'n effeithio ar eu hadrannau etholiadol a dylid eu gwahodd hefyd i fynychu digwyddiadau a drefnir gan y Cyngor yn eu hadrannau etholiadol. (Mae mwy o fanylion yn y Siarter Ymgynghori ag Aelodau Lleol, sydd wedi'i hatodi i'r Protocol hwn).

21.10.9 Pe byddai Aelod yn gofyn am wybodaeth benodol yn ymwneud â gwaith Gwasanaeth arbennig, a'i bod yn ymddangos yn bosibl neu'n debygol y gallai mater gael ei godi neu gwestiwn gael ei ofyn mewn cyfarfod dilynol ar

sail y wybodaeth a ddarparwyd, yna dylid rhoi gwybod i'r Aelod priodol o'r Cabinet neu Gadeirydd y Pwyllgor dan sylw am y wybodaeth a ddarparwyd.

21.10.10 O bryd i'w gilydd, mae'n rhaid i Swyddogion gynghori Aelodau nad oes modd dilyn ffordd benodol o weithredu. Weithiau, mae Aelodau'n tybio mai'r rheswm am hyn yw bod Swyddogion yn ceisio llesteirio dymuniadau gwleidyddion yn fwriadol. Mewn gwirionedd, yn anaml iawn y bydd hyn yn wir. Cyflogir Swyddogion i roi cyngor proffesiynol diduedd, hyd yn oed os nad yw'r cyngor hwnnw'n plesio Aelodau. Maent yn gwneud hyn llawn cymaint er mwyn amddiffyn Aelodau ag am unrhyw reswm arall. Fodd bynnag, os bydd angen rhoi cyngor negyddol, bydd Swyddog effeithiol hefyd yn rhoi awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai Aelodau gyflawni rhai o'u hamcanion neu eu holl amcanion mewn ffyrdd eraill. Mae Swyddogion o'r fath yn amhrisiadwy i unrhyw Gyngor.

21.10.11 Mae'n bosibl y bydd gan Aelodau hawl o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i dderbyn gwybodaeth sydd y tu allan i'w hawliau cyfraith gwlad ar sail "angen gwybod". Anogir Cyflogeion i roi dogfennau i Aelodau heb fod angen cyflwyno cais ffurfiol o dan y Ddeddf os yw'n amlwg o ymholiad yr Aelod y byddai gan unrhyw unigolyn yr hawl i dderbyn dogfennau o'r fath. Bydd **Rheolwr Gwybodaeth** y Cyngor yn gallu rhoi cyngor mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, os bydd angen, ynglŷn â pha un a fyddai unrhyw gais yn dod o fewn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

21.10.12 Mae'n bwysig cael perthynas waith agos rhwng Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet a chyfarwyddwr, penaethiaid gwasanaeth ac uwch swyddogion unrhyw adran sy'n ymwneud a'r portfolio perthnasol. Serch hynny, ni ddylid byth ganiatau i'r perthynasau hyn ddatblygu i fod mor agos, neu ymddangos felly, fel bod hyn yn taflu amheuaeth ar allu'r swyddog i ddelio'n ddiduedd efo aelodau eraill a grwpiau gwleidyddol eraill.

21.10.13 Rhaid cofio bod swyddogion yn atebol i'w pennaeth gwasanaeth ac, er y dylai swyddogion bob amser geisio cynorthwyo cadeirydd, arweinydd portffolio (neu yn wir unrhyw aelod), rhaid iddynt beidio, wrth wneud hynny, fentro y tu hwnt i derfynau pa bynnag awdurdod sydd wedi ei roi iddynt gan eu prif swyddog.

### 21.11 Cyfrinachedd

21.11.1 Yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, mae'n rhaid i Aelod beidio â datgelu gwybodaeth a roddwyd iddo ef/iddi hi yn gyfrinachol gan unrhyw un, na gwybodaeth a gafwyd y mae ef/hi yn credu ei bod o natur gyfrinachol, neu y mae'n rhesymol tybio y dylai ef/hi fod yn ymwybodol ei bod o natur gyfrinachol, ac eithrio:

(a) pan fydd ganddo ef/ganddi hi ganiatâd unigolyn sydd ag awdurdod i'w roi;

(b) ei bod yn ofynnol iddo ef/iddi hi wneud hynny gan y gyfraith;

(c) bod y datgeliad yn cael ei wneud i drydydd parti at ddiben cael cyngor proffesiynol, cyn belled â bod y trydydd parti'n cytuno i beidio â datgelu'r wybodaeth i unrhyw unigolyn arall; neu

(ch) fod y datgeliad:

(i) yn rhesymol ac er budd y cyhoedd; ac

(ii) yn cael ei wneud gyda phob ewyllys da ac yn unol â gofynion rhesymol yr awdurdod.

21.11.2 Dylid trin papurau Pwyllgor cyfrinachol (papurau eithriedig) fel gwybodaeth gyfrinachol oni bai bod y Pwyllgor perthnasol yn penderfynu peidio ag eithrio'r wasg a'r cyhoedd. Atgoffir Aelodau mai'r Swyddog Monitro sy'n gwneud y penderfyniad cychwynnol ynglŷn â pha un a ddylid trin y papurau'n gyfrinachol ai peidio. Y Pwyllgor sydd i benderfynu pa un a ddylent aros yn gyfrinachol. Gall gwybodaeth arall fod yn gyfrinachol oherwydd y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i fudd i'r Cyngor neu'r cyhoedd. Gall gwybodaeth fod yn gyfrinachol hefyd oherwydd yr amgylchiadau y'i cafwyd ynddynt.

21.11.3 Bydd gwybodaeth a gohebiaeth am faterion preifat neu fusnes unigolyn yn gyfrinachol fel arfer.

21.11.4 Dylai Swyddogion egluro wrth Aelodau os ydynt yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol iddynt. Os yw Aelod yn ansicr pa un a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio, dylai ef/hi ofyn i'r Swyddog perthnasol, ond trin y wybodaeth yn gyfrinachol yn y cyfamser.

21.11.5 Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth am y Cyngor a roddir i Aelod gael ei defnyddio gan yr Aelod hwnnw/honno dim ond mewn cysylltiad â chyflawni ei (d)dyletswyddau'n briodol fel Aelod o'r Cyngor.

21.11.6 Os yw Aelod yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol a'i fod/bod o'r farn y dylid ei datgelu i unigolyn arall oherwydd bod hynny'n rhesymol ac er budd y cyhoedd, yna mae'n rhaid iddo ef/iddi hi ymgynghori â'r Swyddog Monitro yn gyntaf ac ni chaiff ddatgelu'r wybodaeth heb ystyried unrhyw gyngor a roddwyd gan y Swyddog hwnnw/honno.

**21.12 <u>Darparu Gwasanaethau Cymorth i Aelodau</u>**

21.12.1 Yr unig sail y gall y Cyngor ddarparu gwasanaethau cymorth (e.e. deunydd ysgrifennu, prosesu geiriau, technoleg gwybodaeth, argraffu, llun-gopïo, cludiant, ac ati) i Aelodau yn gyfreithlon yw er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelodau o'r Cyngor. Felly, mae'n rhaid i wasanaethau cymorth o'r fath gael eu defnyddio ar gyfer busnes y Cyngor yn unig. Ni ddylid byth eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgarwch ymgyrchu neu wleidyddiaeth bleidiol nac at ddibenion personol.

21.12.2 <u>Gohebiaeth</u>

Fel arfer dylai llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor gael eu hanfon yn enw'r Cyflogai priodol, yn hytrach nag yn enw Aelod. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n berffaith dderbyniol anfon llythyr yn enw Aelod, er enghraifft, sylwadau i Weinidog o'r LLywodraeth neu lythyr mewn ymateb i lythyr ymholiad neu gwyno a anfonwyd yn uniongyrchol at yr Aelod hwnnw/honno. Ni ddylai llythyrau sydd, er enghraifft, yn creu rhwymedigaethau neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, byth gael eu hanfon yn enw Aelod.

21.12.3 Fel arfer, ni ddylai swyddog anfon copi o ohebiaeth rhwng aelod unigol a'r swyddog hwnnw/honno at unrhyw aelod arall. Pan fo achos neilltuol lle mae angen anfon copi o'r ohebiaeth at aelod arall, dylid egluro hyn yn glir wrth yr aelod gwreiddiol. Mewn geiriau eraill, ni ddylid defnyddio system o "gopiau distaw".

21.12.4 Y Cyfryngau

Gall cyfathrebu â'r cyfryngau fod yn rhan bwysig o lwyth gwaith Aelod. Yn gyffredinol, mae Aelodau'n rhoi sylwadau a safbwyntiau tra bod Cyflogeion yn rhoi gwybodaeth ffeithiol. Os yw Aelod yn ansicr ynglŷn ag amgylchiadau mater penodol, dylai gysylltu â'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol neu ofyn i Swyddfa'r Wasg wneud hynny.

## 21.13 Rôl y Cyngor fel Cyflogwr

Wrth ymwneud â Swyddogion, dylai Aelodau gydnabod a rhoi ystyriaeth i rôl y Cyngor fel cyflogwr. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol y gallai Swyddogion ddibynnu ar ymddygiad amhriodol Aelod mewn achos cyflogaeth yn erbyn y Cyngor.

## 21.14 Gweithgarwch Gwleidyddol

21.14.1 Mae nifer o gyfyngiadau'n berthnasol i gyflogai sy'n dal swydd y dynodir ei bod "dan gyfyngiadau gwleidyddol" o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

21.14.2 I grynhoi, ni chaiff cyflogeion o'r fath:

(a) fod yn Aelod Seneddol, Aelod o Senedd Ewrop neu Aelod o awdurdod lleol;

(b) gweithredu fel asiant neu is-asiant etholiad ar gyfer unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol yn Aelod o unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn (a);

(c) bod yn Swyddog plaid wleidyddol neu unrhyw gangen plaid wleidyddol neu'n Aelod o unrhyw bwyllgorau neu is-bwyllgorau plaid neu gangen o'r fath, pe byddai ei (d)dyletswyddau'n debygol o fynnu ei fod/bod yn:

  (i) cymryd rhan mewn rheolaeth gyffredinol y blaid neu'r gangen; neu

  (ii) weithredu ar ran y blaid neu'r gangen wrth ymdrin ag unigolion heblaw am Aelodau o'r blaid;

(ch) canfasio ar ran plaid wleidyddol neu unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol i unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn 21.14.2.(a).

(d) siarad â'r cyhoedd gyda'r bwriad ymddangosiadol o ennyn cefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol; a

(dd) chyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig neu artistig y mae ef/hi wedi'i awduro (neu'n un o'i awduron) neu weithredu fel golygydd mewn perthynas â gwaith o'r fath, neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw unigolyn arall gyhoeddi gwaith neu gasgliad o'r fath – os yw'n ymddangos bod y gwaith wedi'i fwriadu i ennyn cefnogaeth i blaid wleidyddol.

21.14.3 Bydd swyddogion yn darparu cyngor i bwyllgorau, fforymau aelodau ayb yn hytrach nag i grwpiau gwleidyddol. O bryd i'w gilydd fodd bynnag, gall fod yn anorfod cynghori grwp gwleidyddol. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n briodol i grwpiau pleidiol alw ar Gyflogeion i gynorthwyo a chyfrannu at eu hystyriaethau cyn belled â'u bod yn cynnal safbwynt sy'n wleidyddol ddiduedd. Gall cymorth gynnwys ystod o weithgareddau megis briffio Aelodau ynglŷn â'u rolau, e.e. cadeirydd neu lefarydd. Dylai grwpiau gwleidyddol ofyn i Gyflogeion roi gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â busnes y Cyngor yn unig, ac nid materion sydd o natur gwleidyddiaeth bleidiol. Dylai cyngor o'r fath fod ar gael i'r holl grwpiau pleidiol ac nid dim ond i'r grŵp mwyafrifol. Mae'n bwysig bod amhleidioldeb gwleidyddol Cyflogeion yn cael ei gynnal, a bod Cyflogeion yn cynnal cyfrinachedd y grŵp.

21.14.4 Fel arfer, yr unig Gyflogeion a fydd yn mynychu cyfarfodydd grŵp fydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Yn gyffredinol, byddant yn gadael y cyfarfod ar ôl rhoi eu cyflwyniad ac ateb cwestiynau. Dylid cofrestru gyda'r Swyddog Monitro pob achlysur pan yw swyddog (heblaw cymhorthydd gwleidyddol) yn mynychu cyfarfod o grwp gwleidyddol.

**21.15 <u>Torri'r Protocol</u>**

(a) Os yw Aelod o'r farn nad yw wedi cael ei drin/thrin â pharch neu gwrteisi priodol, caiff ef/hi godi'r mater gyda rheolwr llinell y Cyflogai. Os nad yw trafodaeth uniongyrchol gyda'r rheolwr yn datrys y gŵyn, dylid ei hatgyfeirio i'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y cyflogai dan sylw. Gallai achos o Dorri'r Protocol arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn Cyflogai os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny.

(b) Os yw cyflogai o'r farn bod Aelod wedi torri'r protocol, dylai ef/hi ymgynghori â'i l a fydd yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr os bydd angen. Mewn rhai amgylchiadau, gallai achos o dorri'r Protocol hefyd fod yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Os yw'r achos yn ddigon difrifol, gallai fod cyfiawnhad dros ei atgyfeirio i'r Swyddog Monitro fel cwyn i'w hystyried dan y drefn ddatrys leol a all yn y pen draw arwan at wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Bydd modd datrys llawer o gwynion yn anffurfiol. Bydd y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr yn cynorthwyo â'r broses hon os bydd angen.

**21.16 <u>Casgliad</u>**

Trwy ddilyn arfer da a sicrhau cysylltiadau gwaith synhwyrol ac ymarferol rhwng aelodau a chyflogeion, gobeithir y gellir sefydlu un o gonglfeini awdurdod lleol llwyddiannus ac felly darparu gwasanaethau o werth uchel i bobl yr ardal. Cyd-ddealltwriaeth, didwylledd a pharch yw'r elfennau pwysicaf sy'n diogelu uniondeb y cyngor, ei aelodau a'i gyflogeion.

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **9 Gorffennaf 2018** |
| **Teitl :** | **Canllawiau Cod Ymddygiad Aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Cyflwyno Canllawiau Drafft ar faterion Cod am sylw a chymeradwyaeth.** |

**Cefndir**

Ar derfyn blwyddyn gyntaf Cyngor newydd daeth amryw o sylwadau a chwestiynau i'r amlwg sy'n awgrymu bod angen canllawiau i gynorthwyo aelodau gyda'r Cod.

Atodir dau ganllaw drafft er sylw:

1. Datgan Buddiannau
2. Cysywllt Aelod a'r Cyngor fel unigolyn.

**Argymhelliad**

Fod y Pwylgor yn ystyried y drafftiau ac yn eu cymeradwyo.

# 1. SGEN I FUDDIANT?

## Pa bryd mae hyn yn bwysig?

Mewn cyfarfodydd annffurfiol, pwyllgorau a gweithgorau.
Wrth gysylltu â thrafod gyda swyddogion ac aelodau eraill
Wrth alw neu ysgrifennu at y Cyngor
Boed penderfyniad neu beidio yn deillio.

**OS YN ANSICR CYMERWCH GYNGOR**

Iwan Evans – Swyddog Monitro,

Rhun Ap Gareth Uwch Gyfreithiwr (Dirprwy Swyddog Monitro),

Sïon Huws- Uwch Gyfreithiwr



## Pa fath o bethau sy'n creu buddiant?

**Mater allai effeithio ar les neu sefyllfa ariannol:**

Fi fy hun,

Fy nheulu,

Partneriaid

Pobl mae gennyf gyswllt personol agos a nhw

**Mater sydd yn ymwneud a neu'n effeithio ar**:

Fy nghyflogwr ,

Fy musnes ,

Fy nghartref neu dir rwy'n berchen neu'n denant

Elusen, corff, awdurdod, Clwb neu fudiad rwyf yn aelod ohono neu yn ei reoli

Ysgol rwy'n llywodraethwr arni

Pwyllgor Craffu sydd yn Craffu fy mhenderfyniadau

# 2. BETH SYDD RHAID I MI EI WNEUD?

## Bod yn agored a thryloyw bob tro

Gwneud datganiad eglur fod gennych fuddiant.

Egluro beth yn union yw'r cyswllt.

Gwneud hynny cyn gynted ag yr ydych yn sylweddoli fod gennych fuddiant

**GODDEFEB**

**Gallwch wneud cais i'r Pwyllgor Safonau am hawl i gymeryd rhan. Mae hyn ar seiliau penodol ac yn ddarostyngedig i brawf budd cyhoeddus – GOFYNWYCH AM GYNGOR**

## Pa mor arwyddocaol yw'r buddiant?

## Os yw'n ymddangos yn ddigon arwyddocaol i liwio'ch barn:

Peidio cymryd rhan o gwbl (h.y. gadael yr ystafell pan drafodir y mater)

Peidio â cheisio dylanwadu ar y mater

Peidio â chysylltu ag aelodau neu swyddogion i'w briffio neu eu cyfarwyddo.

**"Peidiwch â phenderfynu ar sail eich barn eich hun yn unig -**

**meddyliwch beth fyddai aelod o'r cyhoedd yn ei feddwl"**

**(Mae eithriadau ar gyfer rhai cyrff o natur**

**cyhoeddus neu gyrff mae'r Cyngor wedi eich penodi iddynt)**

**ADEGAU PAN MAE RHAID CYSYLLTU**

**Os oes rhaid cysylltu â'r Cyngor (e.e. ynglŷn a gwasanaethau rych chi , eich teulu neu fusnes ei angen) yna rhaid datgan nad ydych yn gweithredu fel cynghorydd.**

**Gwneud hyn  yn syth.**

**Ni allwch ddefnyddio eich mynediad at swyddogion fel aelod i hwyluso eich sefyllfa bersonol.**

**Rhaid defnyddio trefniadau ar gyfer y cyhoedd yn unig.**

**CANLLAWIAU I AELODAU AR WEITHREDU EU HAWLIAU FEL UNIGOLION MEWN PERTHYNAS Â GWAITH Y CYNGOR**
**CYNGOR GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

1. Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau a phrotocolau yn rhoi arweiniad i aelodau ynglŷn â sut i weithredu eu dyletswyddau fel aelodau o'r Cyngor. Ond beth am y sefyllfa pan mae aelod yn angen cysylltu hefo'r Cyngor fel unigolyn preifat yn hytrach nag aelod?

2. Mae'r Cod yn berthnasol i aelod wrth weithredu fel aelod neu yn arddel neu greu'r argraff eu bod yn gweithredu fel cynghorydd. Byddent hefyd yn ddarostyngedig i'r Cod yn eu bywyd ehangach petaent yn dwyn anfri ar y swydd neu yn camddefnyddio eu sefyllfa i gael mantais iddynt hwy neu eraill.

3. Mae aelodau'r Cyngor fel eu hetholwyr, yn ddinasyddion o'r ardal ac mae'n anorfod y bydd achlysuron yn codi ble mae gofyn i'r aelod arddel hawliau preifat fel unigolyn. Gall hyn fod am amryw o resymau. Gall yr aelod fod yn gweithio fel contractwr yn cynnig gwasanaethau i'r Cyngor, yn ysgrifennydd mudiad gwirfoddol yn ymgeisio am grantiau, yn trefnu gwasanaethau gofal ar ran perthynas, yn gwrthwynebu cais cynllunio drws nesaf i'w g/chartref.

4. Yn yr ysbryd o geisio taro'r balans cywir cynigir y cyngor isod i aelod sy'n wynebu gwrthdaro rhwng ei fuddiannau preifat a'i rôl fel cynghorydd.

5. Awgrymir yn y lle cyntaf y dylai'r aelod geisio ei orau i osgoi rhoi ei hun mewn sefyllfa lle all gwrthdaro o'r fath godi. Dylid ystyried a oes raid cymryd y cam fyddai'n creu gwrthdaro neu a oes rhywun arall all weithredu yn ei le. Fe ddylai hyn fod yn bosibl, er enghraifft, os mai cynrychioli corff neu fudiad arall y mae'r aelod yn hytrach na buddiannau personol ef neu ei deulu.

6. Os nad oes modd osgoi'r sefyllfa a'i bod yn anorfod bod yr aelod yn dod i gysylltiad â'r Cyngor fel unigolyn cynigir y camau isod fel rhai priodol i'w cymryd

   - Datgan y buddiant a'i natur yn glir ar y cyswllt cyntaf a bod yr aelod yn cysylltu mewn capasiti preifat yn unig wrth ysgrifennu at y Cyngor neu gysylltu mewn ffordd arall.
   - Os yw'r mater wedi codi drwy'r Cyngor yn cysylltu a'r aelod (e.e. ymgynghoriad cynllunio) cynghorir aelodau i ddatgan y buddiant a'i natur yn glir ar ddechrau unrhyw ymateb.
   - Byddai'n fanteisiol i unrhyw gais am wasanaeth gael ei gofnodi'n ysgrifenedig.
   - Wrth ysgrifennu at y Cyngor (neu unrhyw un arall) fel unigolyn ni ddylid defnyddio papur swyddogol y Cyngor na chyfeiriad e-bost "cynghorydd" – byddai hynny'n amhriodol ac ni fyddai'n caniatáu dirnad pa het mae'r aelod yn ei gwisgo.
   - Wrth gysylltu â'r Cyngor fel unigolyn ni ddylid defnyddio'r statws "Cynghorydd" i sicrhau mynediad i swyddogion na fyddai ar gael i aelodau'r cyhoedd .

7. Gan ddibynnu ar natur y cyswllt gall fod Adrannau yn gosod trefniadau penodol mewn lle i ddelio a'r cyswllt. Byddai hyn er sicrhau priodoldeb a thryloywder y trefniadau er gwarchod pawb.

8. Os oes unrhyw aelod yn ansicr o'i sefyllfa a'i hawliau mewn perthynas â gweithredu fel unigolyn fe'i hanogir i ofyn cyngor y Swyddog Monitro ymlaen llaw.

9. Darperir y canllawiau hyn fel cyngor i aelodau gan y Pwyllgor Safonau. Nid oes iddynt yr un grym a'r Cod Ymddygiad ac atgoffir aelodau mai mater iddynt hwy yn bersonol yw dod i gasgliad ynglŷn ag unrhyw fuddiannau sydd ganddynt.

| Pwyllgor : | Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| Dyddiad : | 9 Gorffennaf 2018 |
| Teitl : | Honiadau yn erbyn aelodau |
| Awdur : | Swyddog Monitro |
| Pwrpas : | Er gwybodaeth |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

**Cwyn 7294/201800440**

Cwyn gan aelod o gyngor tref wedi methu datgelu buddiant mewn cyfarfod o'r cyngor ac y dylai fod wedi gadael y cyfarfod.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Roedd yr aelod wedi datgan bod ganddi fuddiant ond nad oedd o'r farn ei fod yn rhagfarnu. Oherwydd natur drafodaeth a gafwyd, nid oedd yr Ombwdsmon wedi ei berswadio bod y buddiant yn un oedd yn rhagfarnu a fyddai'n golygu y dylai bod wedi gadael.

**Cwyn 16645/201800975**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd tref wedi methu datgelu buddiant mewn mater yn ymwneud â pherson oedd yn gwsmer iddo.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Fel unigolyn sydd yn rhedeg busnes lleol mae'n amlwg y byddai'n nabod sawl unigolyn arall sydd yn byw yn yr ardal. Nid oedd y pwnc dan sylw yn un lle byddai person annibynnol yn meddwl y byddai'n elwa ohoni'n bersonol nac yn medru dylanwadu penderfyniad a fyddai'n creu sefyllfa negyddol i'r achwynydd.

**Cwyn 201800612**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am y modd i siaradodd cynghorydd tref â hi ar dri achlysur mewn perthynas a mater penodol.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd yn bosib cysoni disgrifiad yr achwynydd o'r hyn a ddigwyddodd gyda disgrifiad yr aelod heb dystiolaeth bellach. Roed y ddau fersiwn o'r hyn a ddigwyddodd yr un mor gredadwy ac nid oedd wedi ei berswadio y gallai ffafrio un fersiwn dros y llall

**<u>Cwyn 201706123</u>**

Cwyn gaen aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi gwrthod ymwneud ag ef mewn perthynas â materion yn ymwneud â'i eiddo ac anghydfod rhyngddo â'r Cygor.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Mater i gynghorydd yw penderfynu os yw am gyfarfod neu ohebu gydag aelodau o'r cyhoedd. Prif ddyletswydd aelodau yw cynrychioli trigolion o fewn eu hetholaethau, ond nid oes rheidrwydd arnynt i ymdrin â phob mater unigol a adroddir iddynt.

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion hyd yn hyn eleni:

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 3 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 0 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | 0 |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 2 |
| Swyddog | 0 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 1 |
| Datgan Buddiant | 2 |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 3 |
| Ymchwiliad | 0 |
| Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| Cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru | 0 |

**4. Achosion Agored**

Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **0**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **1**

**5. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **9 Gorffennaf 2018** |
| **PENNAWD** | **Cynhadledd Safonau Cymru 2018** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

Bydd cynhadledd Safonau Cymru yn cael ei gynnal yn Aberystwyth ar Ddydd Gwener Medi 14 2018.

Nid yw'r manylion llaw i law eto ond rwyf ar ddeall  y bydd Mr N Bennett, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn brif siaradwr gyda chyfraniadau oddi wrth Banel Dyfarnu Cymru a chyfres o weithdai.

Mae'r gynhadledd yn gyfle i glywed gan uwch swyddogion yn ymwneud a dyfarnu ym maes y Cod Ymddygiad. Mae hefyd yn gyfle i gyd-drafod a rhannu profiadau a gwybodaeth a swyddogion ac aelodau sydd yn ymwneud a'r gwaith.

**ARGYMHELLIAD**

I dderbyn yr adroddiad a thrafod cynrychiolaeth.

# COFNODION CYFARFOD O'R FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF, WRECSAM AR DYDD GWENER, 24 TACHWEDD 2017

## YN BRESENNOL

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Michael Pugh, Neil Benson, Claire Blanchard and I David Bithell, MBE
Cyngor Sir Ceredigion – Eddie Ffoulkes-Jones
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Iain Moore
Cyngor Sir Ddinbych – Ian Trigger
Cyngor Sir y Fflint – Robert Dewey
Cyngor Sir Ynys Môn – Mike Wilson, Islwyn Jones and Anwen Jones
Cyngor Sir Powys – Debby Jones
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Sharon Warnes

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Dirpwy Swyddog Monitro – Sioned Wyn Davies
Gweinyddwr Pwyllgorau – Jane Johnson

## 1 PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Penodwyd Michael Pugh, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Gadeirydd, yn unol â phenderfyniad y Fforwm ym mis Hydref 2016 mai'r awdurdod sy'n cynnal y Fforwm fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iwan Jones (Parc Cenedlaethol Eryri), Helen Rhydderch Roberts (Powys) a Steve Cripps (Ceredigion).

## 3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 EBRILL 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017.
Cywiriadau -
Diwygio sillafiad John Roberts a Sharon Warnes.
Ymddiheuriadau – ychwanegu Robert Dewey.

**PENDERFYNWYD –yn amodol ar y cywiriadau uchod, y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017 fel cofnod cywir.**

4 **CYFARFOD SEFYDLU A HYFFORDDIANT MATERION MOESEGOL AR GYFER AELODAU NEWYDD**

Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro y rhoddwyd yr eitem hon ar y Rhaglen er mwyn galluogi'r aelodau oedd yn bresennol i roi adborth ar gyflwyniad yr hyfforddiant o fewn Cynghorau Sir, a hefyd ar sut y cyflwynwyd yr hyfforddiant fesul cam i'r Cynghorau Cymuned.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd rhai'n seilio'r hyfforddiant ar y deunyddiau a gafwyd gan CLlLC, ac eraill yn cynhyrchu eu deunyddiau eu hunain.
- Roedd hyd y sesiynau'n amrywio, ond teimlwyd bod sesiynau rhyngweithiol byrrach, gyda mwy o ffocws, yn cynnal diddordeb y mynychwyr.
- Sesiynau ar wahân ar gyfer Cynghorwyr newydd, mwy trylwyr, a sesiynau diweddaru ar gyfer Cynghorwyr oedd yn dychwelyd.
- Lleoliadau – roedd rhai'n cael eu cynnal mewn un lleoliad ac eraill mewn gwahanol leoliadau.
- Cynghorau Cymuned – bu'n fuddiol mynd â'r hyfforddiant allan i'r Cymunedau mewn rhai ardaloedd, ac mewn un awdurdod, roedd y Pwyllgor Safonau wedi trefnu ymweliadau â Chynghorau Cymuned.
- Cafwyd problemau gyda hyfforddiant ar-lein mewn rhai ardaloedd oherwydd cysylltiad band eang gwael.

5 **CLlLC - 5 MLYNEDD I WNEUD GWAHANIAETH**

Cafwyd adborth gan Michael Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn, ar ddigwyddiad rhanbarthol diweddar o'r enw '5 Mlynedd i Wneud Gwahaniaeth' a gynhaliwyd yng Nghanolfan Fusnes Conwy ar gyfer Cynghorwyr newydd.

Dyma'r cyflwyniadau a gafwyd ar y diwrnod:

Mark Drakeford, AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – Yr hyn sydd i ddod: Neges i gynghorwyr newydd gan Lywodraeth Cymru.

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – 5 mlynedd yn y swydd ond etifeddiaeth am oes.

Steve Thomas CBE, Prif Weithredwr CLlLC – Cyflwr y Genedl: 5 Mlynedd o Heriau a Newidiadau i Gynghorau?

Ian Bottrill, Cyn Arweinydd Cyngor, ymchwilydd a hyfforddwr cenedlaethol – Cyfrinachau llwyddiant: Beth sy'n gweithio i gynghorwyr?

Mel Doel, cyn newyddiadurwr BBC Wales, hyfforddwr cenedlaethol a chadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol 2016-17 – Y Cyfryngau Cymdeithasol: Ffrind neu Elyn?

Dywedodd Michael Wilson ei fod yn siomedig iawn gweld cyn lleied o gynghorwyr newydd yn bresennol yn y digwyddiad.

Aeth y Fforwm ati wedyn i drafod yr hyn yr oedd pob Cyngor yn ei ystyried yn hyfforddiant craidd/hanfodol ar gyfer Cynghorwyr a sut mae presenoldeb Aelodau mewn sesiynau hyfforddi'n cael ei gofnodi/ei fonitro.

Mewn perthynas â'r hyfforddiant Cod Ymddygiad, roedd disgwyl i bob Cynghorydd fynychu gan mai'r cwestiwn cyntaf y byddai'r Ombwdsmon yn ei ofyn wrth gynnal ymchwiliad yn erbyn Aelod mewn perthynas â thorri'r Cod, fyddai p'un a oedd yr Aelod wedi mynychu hyfforddiant ai peidio, a phryd y cynigiwyd yr hyfforddiant.

Pwysleisiwyd yr angen i bob Cynghorydd fynychu hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol.

## 6 <u>GWEITHDREFNAU I FYND I'R AFAEL Â HONIADAU YN ERBYN AELODAU</u>

Roedd Michael Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn, wedi gofyn am gael cynnwys yr eitem hon ar y Rhaglen er mwyn trafod pa weithdrefnau sydd gan y Cynghorau i fynd i'r afael â honiadau o Aflonyddu Rhywiol yn erbyn Aelodau gan swyddogion, ac er mwyn cael gwybodaeth am lefel y gefnogaeth a ddarperir i'r dioddefwyr a'r tramgwyddwyr.

Cyfeiriwyd at amryw o brotocolau Aelodau/swyddogion a'r Cod Ymddygiad, ond teimlwyd y dylid ceisio eglurhad/arweiniad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r canlynol, pe bai cwyn o natur ddifrifol yn cael ei gwneud yn erbyn Aelod, e.e. o Aflonyddu Rhywiol ar un o swyddogion y Cyngor. Roedd hyn wedi'i seilio ar y dybiaeth nad oedd yn fater i'r Heddlu.

- Pa bwerau sydd gan yr Ombwdsmon i weithredu pe bai cwyn o'r fath yn cael ei gwneud?
- Deallwyd y gall Panel Dyfarnu Cymru wahardd yr unigolyn dros dro ar sail adroddiad interim ac argymhelliad yr Ombwdsmon.
  Beth oedd y raddfa amser ddisgwyliedig ar gyfer cymryd camau o'r fath?
- A ellid darparu canllawiau ar y trefniadau ymarferol ar gyfer Aelodau a gyhuddir o ymddygiad o'r fath, o ystyried eu statws etholedig mewn perthynas â'r canlynol:
  i) atal yr Aelod rhag cynrychioli eu hetholaeth
  ii) cyflawni eu dyletswyddau arferol yn y Cyngor
  iii) mynychu eiddo'r Cyngor
  iv) gwrthdaro a allai godi o ran dyletswydd gofal y Cyngor tuag at ei swyddogion
  v) a ddylid cynnig gofal bugeiliol i'r Aelod fel y byddai'n cael ei gynnig i swyddogion o dan ddyletswydd gofal?
- Canllawiau mewn perthynas â chwyn yn erbyn Aelod Gweithredol yn hytrach nag Aelod arferol, ac yn arbennig, cylch gwaith y canlynol i weithredu neu beidio yn y sefyllfa hon
  Arweinydd y Cyngor
  Swyddog Monitro
  Pwyllgor Safonau
  Arweinwyr Grwpiau

**PENDERFYNWYD – Gofyn i Swyddog Monitro Cyngor Sir Ynys Môn ddrafftio llythyr i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'w gylchredeg ymysg Swyddogion Monitro pob awdurdod i'w gyflwyno os ydynt yn dymuno gwneud hynny.**

## 7 UNRHYW FATER ARALL

Cyngor Sir Ceredigion fydd yn cynnal Cynhadledd Safonau Cymru 2018 yn Aberystwyth ar ddyddiad i'w drefnu ym mis Medi.

Nid oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael am yr hyfforddiant cyfryngu.

Codwyd y cynnig i lunio Cydbwyllgor Safonau, yn enwedig gan fod rhai awdurdodau'n cael trafferth recriwtio aelodau annibynnol i Bwyllgorau Safonau yn ogystal â phenodi aelod lleyg i'r Pwyllgor Penodi. Nid oedd yn ymddangos fel pe bai llawer o awydd i lunio Cydbwyllgorau, ac awgrymwyd y gallai cyn Gadeiryddion/aelodau annibynnol wedi ymddeol o Bwyllgorau Safonau lunio cronfa o ymgeiswyr posibl i weithredu fel aelodau lleyg ar Bwyllgorau Penodi.

## 8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai/Mehefin 2018 gan Gyngor Sir Gwynedd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am.**